**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (100)**

**Pleidleisiau a Thrafodion Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2004**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf

**2.32pm**
**Cwestiynau i Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**
Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf.

**2.59pm**
**Cwestiwn Brys**
**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y defnydd o frechlynnau BCG yn Ysgol Gyfun Penweddig yn Aberystwyth.

**3.08pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**3.08pm - TYNNWYD YN ÔL**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Brif Weinidog Cymru**
*NDM2172 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1988, yn penderfynu dirprwyo'r holl swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ac o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r swyddogaethau hynny na ellir yn gyfreithiol eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.

Caiff y swyddogaeth hon ei dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y bydd swyddogaethau sy'n cael eu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad, ac i staff pan fo hynny'n berthnasol.

*Nid yw'r cynnig hwn yn gweithredu fel ei fod yn dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad swyddogaethau sy'n cael eu rhoi gan neu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn uniongyrchol i Bwyllgor Archwilio'r Cynulliad.*

**3.08pm**
**Dadl ar Gynllun Gofodol Cymru**
*NDM2173 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Yn croesawu’r ddogfen "Pobl, Lleoedd, Dyfodol" a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy’r e-bost at Aelodau’r Cynulliad ar 10 Tachwedd 2004, ac yn ei mabwysiadu fel cynllun gofodol ar gyfer Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu 'Yn croesawu'r ddogfen' a rhoi 'Yn croesawu â phwyll y ddogfen ddiwygiedig' yn ei le.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r ardaloedd newydd â 'chanolfannau economaidd-gymdeithasol' ac yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i ddatblygu targedau rhanbarthol cynaliadwy ar gyfer swyddi yn yr ardaloedd hyn a chreu ardal economaidd-gymdeithasol newydd ar gyfer Blaenau'r Cymoedd.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng y Gogledd a'r De yn cael blaenoriaeth yn y cynllun diwygiedig.

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar i Nodyn Cyngor Technegol 8 adlewyrchu amcanion y Cynllun Gofodol sy'n rhoi gwerth ar dirlun Cymru ac yn nodi'r niwed i'r tirlun yn sgil crynhoi'r ffermydd gwynt yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol.

**Gwelliant 5 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd y cynlluniau amaeth-amgylchedd o ran cyflawni amcanion y Cynllun Gofodol ac yn nodi dull cost-effeithiol Cyngor Cefn Gwlad Cymru o reoli'r Cynllun Tir Gofal.

**Gwelliant 6 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi cyfraniad cysylltiadau trafnidiaeth da rhwng y Gogledd a'r De at amcanion y Cynllun Gofodol ac, yn arbennig, bwysigrwydd buddsoddi mewn gwella'r cysylltiadau ffyrdd rhwng y De a'r Gogledd.

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i roi'r cyfrifoldeb am Gynllun Gofodol Cymru i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu cynaliadwy.

**Gwelliant 8 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd grymuso cymunedau i chwarae rhan sylweddol yn y broses o reoli eu hamgylchedd a'u hadnoddau lleol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 43; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O blaid 17; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 44; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 17; Ymatal 8; Yn erbyn 29; Cyfanswm 54
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 17; Ymatal 9; Yn erbyn 29; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 46; Ymatal 8; Yn erbyn 1; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.10pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru**
*NDM2174 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Yn croesawu trydydd Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru; ac

2. Yn nodi y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn llunio ymateb ac adroddiad arno ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol erbyn 31 Ionawr 2005.

*Cafodd copïau o Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2003-2004 eu dosbarthu i Aelodau'r Cynulliad ar 10 Tachwedd 2004.*

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ym Mhwynt 1:

Dileu '; ac' ac ychwanegu: ', ac yn llongyfarch y Comisiynydd a'i swyddfa ar eu hymroddiad i amddiffyn buddiannau plant; a'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt 2 newydd ac ailrifo'r pwyntiau yn unol â hynny:

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth Lafur y Cynulliad yn eu trafodaethau â'u cydweithwyr yn Llywodraeth y DU ynghylch penderfyniad unfrydol y Cynulliad Cenedlaethol (NDM1939, 04 Mai 2004) y dylid ymestyn pwerau Comisiynydd Plant Cymru i gynnwys meysydd polisi sydd heb eu datganoli.

**Os derbynnir Gwelliant 2, bydd Gwelliant 6 yn syrthio**

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i neilltuo'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau Gwasanaeth Iechyd Meddwl effeithiol ar gyfer Plant a'r Glasoed neu i gyfaddef ei bod wedi cefnu ar ei strategaeth yn y maes hwn.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder fod y prinder gweithwyr cymdeithasol bellach yn argyfwng.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid dod o hyd i system sy'n galluogi'r Comisiynydd Plant i gyflwyno ei adroddiad ei hun i Gyfarfod Llawn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at fethiant llywodraeth y DU i wrando ar ddymuniad y Cynulliad Cenedlaethol i ymestyn cyfrifoldebau'r Comisiynydd i gynnwys materion sydd heb eu datganoli yng Nghymru.

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at yr angen i barhau i dynnu sylw at ddiffyg datblygiad y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ac yn galw ar y Gweinidog i ddangos sut y mae'n mynd i'r afael â'r mater allweddol hwn yn ei hymateb i'r adroddiad.

**Gwelliant 8 - David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi â phryder y dryswch sydd wedi'i achosi gan y bwriad i gyflwyno Comisiynydd y DU fydd â chyfrifoldeb dros faterion a gadwyd yn ôl.

**Cynigiodd David Melding gynnig gweithdrefnol o dan Reol Sefydlog 6.18 i ychwanegu 15 munud at y ddadl**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Derbyniwyd y cynnig**

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O blaid 52; Ymatal ; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5 – TYNNWYD YN OL**

**Gwelliant 6**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**
O blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 52
**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.24pm**
**Dadl fer - NDM2171 Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Lefelau'r Dreth Gyngor yng Nghaerdydd

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.47pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 15 Tachwedd 2004

- The Local Authorities (Changing Executive Arrangements and Alternative

Arrangements) (Wales) Regulations 2004 Regulatory Appraisal - LD3290 *Dim Fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 1) Order 2004 Regulatory Appraisal - LD3291*Dim Fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Town and Country Planning (Electronic Communications) (Wales) (No. 2) Order 2004 Regulatory Appraisal - LD3292*Dim Fersiwn Gymraeg ar gael*
- The Local Authorities (Calculation Of Council Tax Base) And Council Tax (Prescribed Classes Of Dwellings) (Wales) (Amendment) Regulations 2004 Regulatory Appraisal - LD3293*Dim Fersiwn Gymraeg ar gael*